*This document is available in English*

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

**Cynhelir cyfarfod o'r Panel Gweithredol ddydd Llun 10 Chwefror 2020 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Parc Busnes Llanelwy am 10.00yb.**

Yn gywir

Colin Everett
Clerc

**AGENDA**

1. **Ymddiheuriadau**
2. **Datganiad o Ddiddordebau**
3. **Rhybudd o Faterion Brys**

   Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys dan Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972.
4. **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 21 Hydref 2019**
5. **Materion yn codi**
6. **Monitro Perfformiad Ebrill 2019 – Rhagfyr 2019**
7. **Amcanion Gwella a Llesiant 2020-21**
8. **Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus 2019 – ac ymateb drafft yr Awdurdod**
9. **Y Trefniadau Cyllid a Llywodraethu ar gyfer ATAau yng Nghymru (adroddiad ar lafar)**
10. **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru – monitro ac asesu cyrff cyhoeddus**
11. **Materion Brys**

    Ystyried unrhyw eitem y penderfyna'r Cadeirydd sy'n fater brys (o dan Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972) y nodwyd ei gynnwys o dan eitem 3 uchod.

**<u>RHAN II</u>**

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) o Deddf Llywodraeth Leol, 1972 bod y Wasg a'r Cyhoedd i'w gwahardd o'r cyfarfod ar gyfer ystyried yr eitem(au) busnes canlynol am ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 i 18 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn cael ei datgelu iddynt.

**Dim**

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 6**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **10 Chwefror 2020** |
| Swyddog Arweiniol | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Pippa Hardwick, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol)** |
| Pwnc | **Monitro Perfformiad Ebrill 2019 – Rhagfyr 2019** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Darparu gwybodaeth i'r Aelodau am weithgareddau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, a'i berfformiad mewn perthynas ag amcanion gwella.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Yn ystod tri chwarter cyntaf 2019/20 aeth y Gwasanaeth at 3,735 o ddigwyddiadau brys a galwadau diangen - sef 11% yn llai nag yn yr un cyfnod yn 2018/19.

3 Mae'r tueddiad graddol am i lawr yn nifer y prif danau wedi parhau oherwydd aethpwyd at 2.4% yn llai yn nhri chwarter cyntaf 2019/20 o gymharu ag yn 2018/19.

4 Mae nifer y tanau eilaidd wedi gostwng 34% yn ystod tri chwarter cyntaf eleni, o'i gymharu ag yn yr un cyfnod yn 2018/19 pan roedd y tymheredd ar gyfartaledd yn boethach nag arfer yn ystod misoedd yr haf.

5 Aethpwyd at gyfanswm o 1,749 o alwadau diangen yn ystod tri chwarter cyntaf eleni – sef mymryn yn llai nag yn yr un cyfnod y llynedd.

6 Eleni, fe wnaeth nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi gynyddu 10% o gymharu ag yn yr un cyfnod yn 2018/19 pryd roedd y niferoedd a adroddwyd yn anghyffredin o isel (244 i 268).

7 Rhwng Ebrill a Rhagfyr 2019, cafwyd tair marwolaeth o ganlyniad i danau damweiniol mewn cartrefi, o gymharu â phump yn yr un cyfnod yn 2018/19. Cofnodwyd bod ugain o bobl wedi cael mân anafiadau, ac roedd tri pherson wedi cael anafiadau difrifol o ganlyniad i danau damweiniol mewn cartrefi.

**ARGYMHELLIAD**

8 Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.

**GWYBODAETH**

9 Yn Atodiad 1, er gwybodaeth i'r Aelodau, mae'r adroddiad monitro am y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Rhagfyr 2019.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'n gymorth i'r Awdurdod fonitro ei berfformiad mewn perthynas â'r amcanion gwella a llesiant sydd yn y cynllun cyfunol llesiant a gwella 2019/20. |
| Cyllideb | Mae'n gymorth i dynnu sylw at unrhyw effeithiau posibl ar y gyllideb oherwydd gweithgarwch digwyddiadau na ragwelwyd. |
| Cyfreithiol. | Mae'n gymorth i'r Awdurdod sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ateb y galw newidiol sydd arno oherwydd newidiadau mewn gweithgarwch digwyddiadau. |
| Staffio | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Risgiau | Peidio â bodloni gofynion cyfreithiol i adrodd ynghylch, a monitro, perfformiad a allai effeithio ar y gallu i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ateb y galw. |

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD

**Ebrill 2019 – Rhagfyr 2019**

**Ffigurau dros dro yw'r rhain, a gallent fod yn agored i fân newidiadau.**


**CYNNWYS**


| | |
|---|---|
| **ADRODD YNGHYLCH GWETHGARWCH DIGWYDDIADAU** | |
| **YR HOLL DDIGWYDDIADAU** | |
| Trosolwg o'r holl ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt | |
| | |
| **TANAU FESUL CATEGORI** | |
| Tanau fesul categori (prif danau, tanau eilaidd, tanau simnai) | |
| Tanau fesul cymhelliad (damweiniol/bwriadol) | |
| Tanau awyr agored | |
| | |
| **GALWADAU DIANGEN** | |
| Galwadau diangen fesul categori (larymau tân awtomatig, didwyll, maleisus) | |
| | |
| **DIGWYDDIADAU GWASANAETH ARBENNIG** | |
| Digwyddiadau gwasanaeth arbennig fesul categori | |
| | |
| **MONITRO MEWN PERTHYNAS AG AMCAN GWELLA A LLESIANT A** | |
| Tanau damweiniol mewn cartrefi | |
| Archwiliadau Diogel ac Iach | |
| Marwolaethau ac anafusion oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | |
| Natur yr anaf | |
| | |
| **GEIRFA** | |

## 1.0 Yr Holl Ddigwyddiadau

1.1 Aeth y Gwasanaeth at gyfanswm o 3,735 o ddigwyddiadau brys (tanau, galwadau diangen a digwyddiadau gwasanaeth arbennig) yng Ngogledd Cymru yn ystod tri chwarter cyntaf 2019/20, sef 11% yn llai o ddigwyddiadau nag yn yr un cyfnod yn 2018/19, a llai na'r cyfartaledd tair blynedd.

**Siart 1. Nifer y tanau, galwadau diangen a digwyddiadau gwasanaeth arbennig yr aethpwyd atynt, gyda'r cyfartaledd 3 blynedd**




## 2.0 Tanau, yn ôl categori

2.1 Yn ystod tri chwarter cyntaf 2019/20, tanau oedd 40% o'r digwyddiadau brys yr aethpwyd atynt (1,499). O'r tanau hynny, roedd 729 (49%) yn brif danau, roedd 677 (45%) yn danau eilaidd ac roedd 93 (6%) yn danau simnai. Mae'r tueddiad graddol am i lawr yn nifer y prif danau wedi parhau, oherwydd aethpwyd at 18 (2%) yn llai o brif danau yn nhri chwarter cyntaf 2019/20 o gymharu ag yn yr un cyfnod yn 2018/19, ac 88 (11%) yn llai o danau o gymharu â 5 mlynedd yn ôl.

2.2 Mae nifer y tanau eilaidd yr ydym yn mynd atynt yn amrywio fwy na phrif danau oherwydd maent yn tueddu i fod yn gysylltiedig â'r tywydd. Mae effaith y tywydd gwlypach yn ystod tri chwarter cyntaf 2019/20 yn cael ei adlewyrchu yn y 34% o ostyngiad yn nifer y tanau eilaidd o gymharu ag yn yr un cyfnod yn 2018/19. Roedd mwy na 10 centimetr yn fwy o law yng Nghymru rhwng Ebrill a Rhagfyr 2019/20 o gymharu ag yn 2018/19.

2.3 Mae nifer y tanau simnai yn parhau'n gyson isel ledled ardal y Gwasanaeth.

**Siart 2. Nifer y tanau yr aethpwyd atynt, fesul categori, gyda'r cyfartaledd 3 blynedd**





| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | Cyfartaledd 3 blynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Prif Danau | 817 | 841 | 757 | 747 | 729 | 782 |
| Tanau Eilaidd | 777 | 619 | 759 | 1,022 | 677 | 800 |
| Tanau Simdde | 98 | 87 | 76 | 81 | 93 | 81 |

## 3.0 Tanau, yn ôl cymhelliad

3.1 Mae nifer y prif danau damweiniol wedi parhau'n gymharol gyson dros y blynyddoedd diwethaf, ac maent fel arfer dros 70% o'r holl brif danau.

3.2 Yn ystod tri chwarter cyntaf y flwyddyn, cafodd 50% o'r tanau eilaidd yr aethpwyd atynt eu cynnau'n fwriadol, sef yr un faint fwy na heb na'r blynyddoedd blaenorol ac eithrio 2018/19 pryd cofnodwyd bod 36% o'r tanau eilaidd yn rhai bwriadol.


**Siart 3. Nifer y prif danau a'r tanau eilaidd yr aethpwyd atynt, yn ôl cymhelliad gyda'r cyfartaledd 3 blynedd**



## 4.0 Tanau yn yr Awyr Agored

4.1 Yn ystod tri chwarter cyntaf 2019/20, tanau glaswelltir, coetir a chnydau oedd 34% o'r holl danau yn yr awyr agored, ac roedd y gweddill yn digwydd mewn lleoliadau awyr agored eraill (36%); adeileddau awyr agored (27%); ac offer a pheiriannau awyr agored (2%). Mae effeithiau'r tywydd sych a phoeth yn 2018/19 yn cael eu hadlewyrchu yn y nifer uwch o danau yn yr awyr agored (1,039), ac yn enwedig yn y cynnydd sydyn yn nifer y tanau glaswelltir, coetir a chnydau (590) yn y flwyddyn honno.

**Siart 4. Nifer y tanau glaswelltir, coetir a chnydau fel cyfran o'r holl danau yn yr aethpwyd atynt yn yr awyr agored**




## 5.0 Galwadau Diangen

5.1 Aeth y Gwasanaeth at gyfanswm o 1,749 o alwadau diangen yn ystod tri chwarter cyntaf 2019/20. O'r rhain, roedd 54% yn alwadau diangen awtomatig gan larymau tân awtomatig, roedd 44% wedi cael eu gwneud yn ddidwyll ac roedd y gweddill wedi digwydd drwy fwriad maleisus (2%).

5.2 Mae niferoedd cyffredinol y galwadau diangen yn dal yn is nag fel roedd pethau cyn cyflwyno'r newid i'r polisi Larymau Tân Awtomatig (a ddaeth i rym yn Ebrill 2015).

**Siart 5. Nifer y galwadau diangen yr aethpwyd atynt, yn ôl categori**




| | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | Cyfartaledd 3 blynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Larymau Tân Awtomatig | 1,552 | 745 | 924 | 856 | 889 | 941 | 890 |
| Didwyll | 938 | 761 | 723 | 739 | 843 | 776 | 768 |
| Maleisus | 62 | 34 | 42 | 30 | 30 | 32 | 34 |
| Cyfanswm | 2,552 | 1,540 | 1,689 | 1,625 | 1,762 | 1,749 | 1,692 |


## 6.0 Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig

6.1 Ers 2015/16 prin fu'r newid yn nifer y 'digwyddiadau gwasanaeth arbennig yr aethpwyd atynt ac a oedd yn wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd'. Yn nhri chwarter cyntaf y flwyddyn, aeth y Gwasanaeth at 19 (12%) yn llai o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd nag yn yr un cyfnod y llynedd.

6.2 Yn 2017/18 cafwyd cynnydd yn nifer y digwyddiadau gwasanaeth arbennig 'heblaw gwrthdraiwadau traffig ar y ffyrdd' (ac eithrio prosiectau) a oedd yn cynnwys cynnydd yn nifer y digwyddiadau a oedd yn ymwneud â llifogydd. Yn ystod 2018/19, a oedd yn flwyddyn boethach na'r cyfartaledd, roedd nifer y digwyddiadau gwasanaeth arbennig 'heblaw gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd' (ac eithrio prosiectau), yn llawer is (262).

6.3 Ers dechrau'r cynllun 'dull mynediad', mae'r Gwasanaeth wedi cynorthwyo Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i fynd i mewn i adeiladau 78 o weithiau.

**Siart 6. Nifer y digwyddiadau gwasanaeth arbennig, yn ôl categori**





| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dulliau Mynediad | 0 | 0 | 0 | 34 | 44 |
| Ar goll o Gartref | 0 | 19 | 18 | 25 | 11 |
| Digwyddiad Meddygol - Cyd-ymatebwr | 0 | 98 | 86 | 0 | 0 |
| Tîm Cynorthwyo Cymunedol - helpu hefo codymau | 0 | 168 | 632 | 120 | 0 |
| Arall heblaw GTFf (ddim yn cynnwys prosiectau) | 393 | 330 | 356 | 262 | 288 |
| GTFf | 163 | 159 | 161 | 163 | 144 |

## 7.0 **Monitro mewn perthynas ag Amcan Gwella a Llesiant A:** *Cefnogi pobl i atal tanau damweiniol mewn cartrefi ac aros yn ddiogel os yw tanau o'r fath yn digwydd*

7.1 Fe wnaeth nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi ostwng yn 2018/19 i'r lefel isaf a gofnodwyd erioed yng Ngogledd Cymru. Yn nhri chwarter cyntaf 2019/20 aeth y Gwasanaeth at 24 (10%) yn fwy o danau damweiniol mewn cartrefi nag yn ystod yr un cyfnod y llynedd, er bod hyn yn dychwelyd i lefelau mwy cyfarwydd ac mae'n dal yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd.


**Siart 7. Nifer y tanau mewn cartrefi yr aethpwyd atynt, yn ôl cymhelliad**




| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | Cyfartaledd 3 blynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tân (Damweiniol) | 294 | 332 | 291 | 244 | 268 | 289 |
| Tân (Bwriadol) | 30 | 25 | 27 | 22 | 23 | 25 |

7.2 Ers 2015/16, mae'r rhan fwyaf o danau damweiniol mewn cartrefi wedi digwydd mewn tai, fflatiau/maisonettes pwrpasol a byngalos. Yn 2019/20, fe wnaeth nifer y tanau damweiniol mewn tai ostwng 29% (129 o danau), o gymharu ag yn 2016/17 (182 o danau).


**Siart 8. Nifer y tanau mewn cartrefi yr aethpwyd atynt, yn ôl math o eiddo**



## 8.0 Archwiliadau Diogel ac Iach

8.1 Yn ystod tri chwarter cyntaf y flwyddyn, cafodd 13,966 o archwiliadau Diogel ac Iach eu cynnal, ac roedd 4,015 (28.8%) o'r rheini yn deillio o atgyfeiriadau gan sefydliadau sy'n bartneriaid i ni. Mae hyn fymryn yn is na'r targed o 30%.

**Siart 9. Canran yr archwiliadau Diogel ac Iach a gwblhawyd a oedd yn deillio o atgyfeiriad gan asiantaeth partner gyda'r cyfartaledd 3 blynedd**




## 8.0 Anafusion oherwydd Tanau Damweiniol mewn Cartrefi

9.1 Yn 2019/20, cafwyd 3 marwolaeth o ganlyniad i danau damweiniol mewn cartrefi o gymharu â 5 yn yr un cyfnod yn 2018/19.

9.2 Rhwng Ebrill a Rhagfyr 2019/20, cafwyd 3 anaf difrifol o gymharu â 2 yn y flwyddyn flaenorol. Yn ystod 2019/20, cofnodwyd bod 20 o bobl wedi cael mân anafiadau o gymharu â 39 yn 2015/16, sy'n arwydd o dueddiad graddol am i lawr.

9.3 Gwelwyd cynnydd bach yn nifer y bobl yn cael cymorth cyntaf yn y fan a'r lle yn ystod 2019/20, tra oedd nifer y bobl a gafodd archwiliad rhagofalus, neu a gafodd eu cynghori i weld meddyg rhag ofn, wedi gostwng o 49 yn 2015/16 i 20 yn 2019/20.

**Siart 10. Nifer y marwolaethau a'r anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi**





| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|
| Marwolaeth | 2 | 3 | 1 | 5 | 3 |
| Anafiadau - Difrifol | 3 | 6 | 2 | 2 | 3 |
| Anafiadau - Bychan | 39 | 18 | 35 | 11 | 20 |
| Cymorth Cyntaf | 36 | 29 | 20 | 17 | 26 |
| Archwiliad Rhagofalus | 49 | 41 | 24 | 10 | 20 |

## 9.0 Natur yr Anafiadau

9.1 Dros y cyfnod adrodd o 5 mlynedd, sef 2015/16 i 2019/20, yr anaf mwyaf cyffredin yw 'wedi eu llethu gan nwy, mwg neu fygdarthau gwenwynig; mygu'. Yn 2019/20, roedd 55 o bobl 'wedi eu llethu gan nwy, mwg neu fwgdarthau gwenwynig; mygu' o gymharu â 29 yn yr un cyfnod yn 2018/19.

**Siart 11. Natur yr anafiadau mewn tanau damweiniol mewn cartrefi**



**Geirfa**

| | |
|---|---|
| Tanau | Mae pob tân yn cael ei roi mewn un o dri chategori, sef prif danau, tanau eilaidd neu danau simnai. |
| Prif Danau | Dyma danau nad ydynt yn danau simnai, ac sydd yn digwydd mewn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfail), cerbydau, carafanau ac ôl-gerbydau, storfeydd y tu allan, gweithfeydd a pheiriannau, eiddo amaethyddol a choedwigoedd, ac adeileddau eraill y tu allan, megis pontydd, blychau postio, twneli, ayyb.<br>Mae tanau yn unrhyw le yn brif danau os oes anafusion, achub neu ddianc, felly hefyd danau yn unrhyw le yr aeth pum neu ragor o beiriannau tân atynt. |
| Tanau Eilaidd | Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn danau simnai nac yn brif danau.<br>Nid yw tanau eilaidd yn cynnwys anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt.<br>Fel arfer, tanau eilaidd yw'r rhai sy'n digwydd mewn lleoliadau megis tir agored, coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried - yn yr un modd ag eiddo amaethyddol neu goedwigoedd - yn brif dân), dodrefn y tu allan, goleuadau traffig ayyb. |
| Tanau Simnai | Dyma danau mewn adeiladau wedi eu meddiannu, lle mae'r tân wedi ei gyfyngu i'r simnai ei hun, hyd yn oed os oes gwres neu ddifrod oherwydd mwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun.<br>Nid yw tanau simnai'n cynnwys anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt. |
| Digwyddiadau Galwadau Arbennig | Dyma ddigwyddiadau lle nad oes tân, a lle mae angen peiriant neu swyddog, ac maent yn cynnwys:<br>a) Argyfyngau lleol e.e. llifogydd, digwyddiadau traffig ar y ffyrdd, achub pobl, gwneud sefyllfa 'yn ddiogel' ayyb;<br>b) Trychinebau mawr;<br>c) Digwyddiadau domestig e.e. dŵr yn gollwng, pobl wedi eu cloi i mewn neu allan ayyb;<br>d) Trefniadau o flaen llaw i fynd i ddigwyddiadau, a allai gynnwys darparu cyngor ac archwiliadau. |
| Galwadau diangen (cyfarwyddyd cyffredinol) | Pan fo'r GTA yn mynd i leoliad lle credir bod digwyddiad, ond o gyrraedd gwelir nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli neu wedi bodoli.<br>Sylwer: os bydd y peiriant yn cael 'ei droi'n ôl' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad, ni chyfrifir ei fod wedi troi allan, ac nid oes angen adrodd yn ei gylch. |
| Galwadau diangen – Maleisus | Dyma alwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y GTA i fynd i ddigwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys rhai bwriadol a lle amheuir eu bod yn faleisus. |
| Galwadau diangen – Didwyll | Dyma alwadau a wneir yn ddidwyll pan gredir bod y GTA yn wir yn mynd at dân neu ddigwyddiad gwasanaeth arbennig. |
| Galwadau diangen – systemau awtomatig | Dyma alwadau a ddaw gan larwm mwg ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys larwm yn canu trwy ddamwain neu pan fod larwm yn canu a rhywun yn galw'r GTA fel mater o drefn oherwydd trefniant sefydlog, h.y. heb 'benderfyniad', er enghraifft gan ganolfan alwadau diogelwch neu rywun wedi ei enwebu o fewn sefydliad). |

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda XX**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **10 Chwefror 2020** |
| Swyddog Arweiniol | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Pippa Hardwick, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol** |
| Pwnc | **Amcanion Gwella a Llesiant 2020-21** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1. Cynnig, er mwyn cael cymeradwyaeth yr Aelodau, amcanion gwella a llesiant drafft ar gyfer 2020/21.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2. Rhaid i'r Awdurdod Tân ac Achub (yr Awdurdod) gyhoeddi amcanion gwella a llesiant a bod wedi cynnwys y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill yn y broses o ddatblygu'r amcanion hynny.

3. Mae'r adroddiad yn cynnig, er mwyn cael cymeradwyaeth yr Aelodau, amcanion gwella a llesiant drafft ar gyfer 2020/21, a'r rheini wedi cael eu diwygio a'u helaethu yn dilyn adborth gan Gomisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**ARGYMHELLION**

4. Bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r gyfres a ddiwygiwyd ac a helaethwyd o amcanion gwella a llesiant ar gyfer 2020/21.

**CEFNDIR**

5. Rhaid i'r awdurdodau tân ac achub yng Nghymru gyhoeddi amcanion gwella yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ac amcanion llesiant yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ar gyfer prosesau cynllunio'r Awdurdod, caiff y rhain eu trin fel petaent yr un peth, yn ystyr fod amcanion gwella tymor byr yn gallu bod hefyd yn gamau tuag at gyflawni amcanion llesiant tymor hir.

6. Yn ôl y gyfraith, rhaid i'r Awdurdod ymdrechu i wella ei wasanaethau yn y tymor hir ac ystyried llesiant cenedlaethau yn y dyfodol o bobl yn yr ardal yn y tymor hir. Rhaid i'r amcanion llesiant y mae wedi'u mabwysiadu gyfrannu at gyflawni nodau llesiant Cymru, a rhaid i'r Awdurdod fod yn gallu dangos ei fod yn cymryd pob cam rhesymol (wrth gyflawni ei swyddogaethau) i gyflawni ei amcanion.

7. Swyddogaeth Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yw hyrwyddo'r egwyddo datblygu cynaliadwy, bod yn warcheidwad er lles cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru, a chefnogi'r cyrff cyhoeddus sydd yn y rhestr yn y Ddeddf i weithio tuag at gyflawni'r nodau llesiant. Gall y Comisiynydd wneud argymhellion i gorff cyhoeddus ynglŷn â'r camau y mae wedi'u cymryd neu mae'n cynnig eu cymryd i osod ei amcanion llesiant ac yna i'w cyflawni. Rhaid i gyrff cyhoeddus gymryd pob cam rhesymol i ddilyn yr argymhellion a wneir gan y Comisiynydd.

8. Dyma amcanion tymor hir yr Awdurdod ar hyn o bryd:

   A. rhoi cymorth i bobl atal tanau damweiniol mewn cartrefi ac i fod yn ddiogel os yw tanau o'r fath yn digwydd; a
   B. hwyluso gwasanaethau tân ac achub sydd o ansawdd uchel, sy'n ymatebol ac sydd wedi eu hintegreiddio'n well er mwyn i weithgareddau ataliol ac ymateb brys barhau i fod ar gael pryd a lle mae eu hangen, a hynny'n fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg.

9. Yn dilyn cyfres o gyfarfodydd y Gweithgor Cynllunio yn 2019, bu'r Aelodau'n ystyried amcanion yr Awdurdod, ac yna penderfynodd yr Awdurdod ymgynghori'n gyhoeddus ynghylch datblygu a mabwysiadu strategaeth amgylcheddol.

10. Fel rhan o drafodaethau'r Gweithgor Cynllunio, bu'r Aelodau'n ystyried effaith newid yn yr hinsawdd a thywydd eithafol ar y Gwasanaeth, a beth yw manteision datblygu strategaeth amgylcheddol, sy'n cynnwys, er enghraifft:
    - cynllunio adnoddau ar gyfer delio â gweithgareddau eithafol yn ymwneud â'r tywydd, megis llifogydd eang a mwy o danau glaswelltir;
    - addysgu'r cyhoedd a chydweithio â sefydliadau eraill i leihau effaith digwyddiadau'n ymwneud â'r tywydd ar gymunedau lleol;
    - monitro a rheoli defnydd y Gwasanaeth ei hun o ynni a thanwydd, ynghyd â'i ddulliau rheoli gwastraff;
    - diwygio polisïau caffael a threfniadau cyfrifyddu;
    - gwneud cyfraniadau cadarnhaol i fioamrywiaeth.

11. Roedd yr Aelodau'n cydnabod y byddai'n briodol, gan fod sawl blwyddyn ers iddo fabwysiadu datganiadau polisi amgylcheddol ac ynni, roi bywyd newydd yn y gwaith hwn drwy ddatblygu strategaeth amgylcheddol newydd ar gyfer yr Awdurdod, sy'n mynd i'r afael â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn fwy amlwg, yn ogystal â'r gwaith sy'n cael ei ddatblygu drwy'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru.

**GWYBODAETH**

**Ymgynghoriad Cyhoeddus 2019**

12. Cafodd ymgynghoriad cyhoeddus yr Awdurdod ei gynnal rhwng Medi a Rhagfyr 2019. Mae adroddiad ar wahân yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law ac yn cyflwyno ymateb drafft gan yr Awdurdod i'r pwyntiau allweddol a gafodd eu gwneud.

**Amcanion Gwella a Llesiant ar gyfer 2020/21**

13. Mae adborth a gafwyd yn ddiweddar gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn awgrymu bod angen i'r Awdurdod gynyddu nifer yr amcanion y mae'n ceisio eu cyflawni. Mae hyn yn seiliedig ar ddehongli Adran 3(2)(a) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 fod rhaid i gorff cyhoeddus osod a chyhoeddi amcanion "…sy'n cael eu cynllunio i sicrhau ei fod yn cyfrannu i'r eithaf at gyrraedd pob un o'r nodau llesiant".

14. Bydd yr Aelodau'n cofio mai nodau llesiant Cymru yw sicrhau: Cymru lewyrchus; Cymru gydnerth; Cymru iachach; Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynus; Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

15. Ar sail yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus, a beth bynnag fydd unrhyw benderfyniad yr Awdurdod am ei gyllidebau refeniw a chyfalaf ar gyfer 2020/21, dyma gynnig amcanion gwella a llesiant a ganlyn:

- **Amcan 1**: gweithio tuag at wneud gwelliannau i iechyd, diogelwch a llesiant pobl yng Ngogledd Cymru
- **Amcan 2**: parhau i weithio ar y cyd i wella eu cadernid
- **Amcan 3:** gweithredu mor effeithiol ac effeithlon â phosibl, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael
- **Amcan 4**: parhau i ganfod cyfleoedd i annog mwy o ymgysylltu â phobl, cymunedau, staff a rhanddeiliaid
- **Amcan 5:** cynnal gweithlu sy'n addas o amrywiol, cydnerth, medrus, proffesiynol a hyblyg

- **Amcan 6:** datblygu ffyrdd o gael mwy o ymwybyddiaeth amgylcheddol er mwyn lleihau effaith ein gweithgareddau ar yr amgylchedd
- **Amcan 7:** sicrhau bod gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd yn cael eu hystyried, gan gynnwys yn ystod prosesau caffael**.**

16. Bydd y camau tymor byr tuag at gyflawni'r amcanion hyn yn dibynnu ar benderfyniadau o ran y gyllideb ac adnoddau, a bydd angen eu llunio yn unol â hynny.

17. Mae'r gyfres helaethach wedi rhoi ystyriaeth i adborth y Comisiynydd, ac mae hefyd wedi ystyried sut gellir gwella dulliau adrodd am y nodau llesiant ac o bosib am y Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub. Ar ôl cymeradwyo'r gyfres ddiwygiedig o amcanion, bydd angen ei hymgorffori yn y Cynllun Gwella a Llesiant drafft terfynol 2020/21 er mwyn i'r Awdurdod llawn gymeradwyo hwnnw yn ei gyfarfod nesaf ym mis Mawrth 2020.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'n cynyddu nifer yr amcanion unigol sy'n cael eu cyflawni gan yr Awdurdod. Mae goblygiad uniongyrchol i'r gwaith o gytuno ar y camau tuat at amcanion llesiant tymor hir yr Awdurdod. |
| Cyllideb | Mae perthynas glir rhwng cynlluniau'r Awdurdod ar gyfer 2020/21 a lefel yr adnoddau ariannol sydd ar gael. Rhaid i gyllideb 2020/21 gael ei chadarnhau erbyn canol mis Chwefror 2020. |
| Cyfreithiol | Mae'n cefnogi cydymffurfiaeth â deddfwriaeth ym maes cynllunio gwelliannau a llesiant. |
| Staffio | Nid oes effaith hysbys ar lefelau staffio. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Bydd effaith camau penodol ar yr agweddau hyn yn cael ei hasesu ar adeg briodol yn eu datblygiad. |
| Risgiau | Mae'n lleihau'r risgiau o beidio â chydymffurfio â'r gyfraith ac o fethu â chyllidebu a chynllunio yn briodol. |

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **10 Chwefror 2020** |
| Swyddog Arweiniol | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Pippa Hardwick, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol** |
| Pwnc | **Crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus 2019 ac ymateb drafft yr Awdurdod** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1. Rhoi crynodeb o'r ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus Awdurdod Tân ac Achub 2019 a chyflwyno, er mwyn cael cymeradwyaeth, ymateb drafft i'r sylwadau ysgrifenedig a ddaeth i law.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2. Rhaid i'r Awdurdod Tân ac Achub (yr Awdurdod) gyhoeddi amcanion gwella a llesiant a bod wedi cynnwys y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill yn y broses o ddatblygu'r amcanion hynny.

3. Fe wnaeth ymgynghoriad cyhoeddus 2019 ennyn dau ddeg pedwar o ymatebion ysgrifenedig. Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebion hynny o blaid i'r Awdurdod fod yn fwy ymwybyddiaeth amgylcheddol, cydnabyddid hefyd y byddai hyn yn golygu her sylweddol.

**ARGYMHELLION**

4. Bod yr Aelodau:
   (i) yn nodi'r ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus yr Awdurdod yn 2019, ac yn rhoi ystyriaeth iddynt wrth ystyried y gyfres ddrafft o amcanion gwella a llesiant ar gyfer 2020/21, sef testun adroddiad arall i'r cyfarfod hwn; a
   (ii) yn cymeradwyo cyhoeddi'r ymateb drafft gan yr Awdurdod, fel y gwelir yn Atodiad 2.

**CEFNDIR**

5. Rhaid i'r awdurdodau tân ac achub yng Nghymru gyhoeddi amcanion gwella yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ac amcanion llesiant yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

6. Fel rhan o'i broses gynllunio, mae disgwyl i'r Awdurdod gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar yr amcanion y mae'n eu hystyried, a rhoi ystyriaeth i'r ymatebion a ddaeth i law wrth gwblhau ei gynlluniau.

7. Wrth ddatblygu ei amcanion, mae'r Awdurdod ers sawl blwyddyn wedi cynnal ymarferiadau ymgynghori, pryd mae'r cyhoedd a phobl eraill sydd â diddordeb yn cael eu hannog i roi eu barn ar agweddau ar y gwasanaethau tân ac achub yn yr ardal. Mewn rhai blynyddoedd, mae'r Awdurdod wedi gofyn am gynigion penodol ac mewn rhai eraill mae wedi gwahodd barn fwy cyffredinol am ddatblygiad gwasanaethau tân ac achub yn y dyfodol.

8. Yn dilyn cyfres o gyfarfodydd y Gweithgor Cynllunio yn 2019 ac ar ôl ystyried amcanion presennol yr Awdurdod, penderfynodd yr Awdurdod ymgynghori'n gyhoeddus ynglŷn â datblygu a mabwysiadu strategaeth amgylcheddol.

9. Roedd yr Aelodau'n cydnabod y byddai'n briodol, gan fod sawl blwyddyn ers mabwysiadu'r datganiadau polisi ar gyfer yr amgylchedd ac ynni, rhoi bywyd newydd yn y gwaith hwn drwy ddatblygu strategaeth amgylcheddol newydd ar gyfer yr Awdurdod, sy'n mynd i'r afael yn fwy amlwg â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn ogystal â'r gwaith sy'n cael ei ddatblygu drwy'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru.

10. Roedd yr ymgynghoriad yn cyflwyno gweledigaeth yr Awdurdod o fod yn sefydliad sy'n gyfrifol ac ymwybyddiaeth amgylcheddol ac sydd wedi cydnabod a chynllunio ar gyfer delio ag effeithiau newid yn yr hinsawdd (gan gynnwys tywydd eithafol) ar ei wasanaethau.

**GWYBODAETH**

<u>Ymgynghoriad Cyhoeddus 2019</u>

11. Cafodd yr ymgynghoriad cyhoeddus ei gynnal rhwng Medi a Rhagfyr 2019, ac roedd yn cynnwys amrywiaeth o ddeunyddiau ymgysylltu, yn cynnwys:
    - uwchlwytho i'r wefan ddogfen ysgrifenedig yn darparu esboniad a gwybodaeth gynhwysawr;
    - holiadur ar-lein, gyda'r dewis o gyflwyno ymatebion ysgrifenedig os yw hynny'n well gan bobl; a
    - fideo dwyieithog yn hyrwyddo'r ymgynghoriad cyhoeddus, i'w ddefnyddio'n bennaf ar y cyfryngau cymdeithasol.

12. Roedd y dulliau cyfathrebu yn cynnwys:
    - datganiad i'r wasg gyda dolen at ddeunyddiau ymgynghori a gwybodaeth ynglŷn â sut i gymryd rhan;
    - anfon llythyrau gyda chopi o'r ddogfen ymgynghorol at yr holl randdeiliaid a oedd wdi cofrestru i gael gohebiaeth o'r fath;

- negeseuon ategol ar y cyfryngau cymdeithasol, i gyfeirio pobl at yr ymgynghoriad, cynnal yr ymwybyddiaeth a thynnu sylw at y dyddiad cau;
- erthyglau a nodiadau atgoffa yn y cylchlythyrau i'r staff, i'w hannog i ymateb.

13. Roedd yr holiadur ar-lein yn gwahodd barn ynglŷn â sut byddai newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar y canlynol yn yr Awdurdod:
    - ymateb i argyfyngau;
    - gweithgareddau ataliol;
    - camau a chyfrifoldebau corfforaethol.

14. Mae Atodiad 1 yn cynnwys dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

15. Ar y cyfan, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion o blaid fod yr Awdurdod yn bod yn fwy ymwybodol o'r amgylchedd, er bod nifer yn cyfeirio at yr her sylweddol a fyddai'n dod gyda hynny, yn enwedig o ran rheoli'r fflyd goch a'r costau cysylltiol.

16. Mae adborth drafft i'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael yn Atodiad 2.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae goblygiad uniongyrchol i'r gwaith o osod amcanion llesiant tymor hir yr Awdurdod a'r camau tymor byr tuag at gyflawni'r rheini. |
| Cyllideb | Bydd cynlluniau manwl 2020/21 yn dibynnu ar lefel yr adnoddau ariannol a fydd ar gael. |
| Cyfreithiol | Mae'n gymorth i gydymffurfio â deddfwriaeth ym maes cynllunio gwelliannau a llesiant. |
| Staffio | Ni chanfuwyd dim. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Bydd effaith y camau penodol yn cael eu hasesu ar yr adeg briodol yn eu datblygiad. |
| Risgiau | Mae'n lleihau'r risgiau o beidio â chydymffurfio â'r gyfraith ac o fethu â chyllidebu a chynllunio yn briodol. |

**Atodiad 1**

**Dadansoddiad o'r ymatebion ysgrifenedig a ddaeth i law i ymgynghoriad cyhoeddus 2019.**

## A. YMATEB

Roedd 16 o ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn ymwneud ag ymateb brys.

### (A1) Staffio ac Adnoddau

Roedd nifer o ymatebion yn awgrymu recriwtio a hyfforddi mwy o ddiffoddwyr tân llawn amser a rhan amser, ac roedd rhai yn manteisio ar gyfle i awgrymu gwella'r cyflog a'r amodau i ddiffoddwyr tân rhan amser er mwyn denu a chadw mwy o staff. Roedd ymatebion eraill yn awgrymu gwneud gwaith ymgysylltu gyda chyflogwyr lleol fel ffordd o recriwtio mwy o ddiffoddwyr tân rhan amser, a hefyd yn awgrymu gwella llesiant fel ffordd o ostwng lefelau salwch ymysg y staff.

Er nad oes gan hyn gysylltiad uniongyrchol â'r gwaith o ddatblygu strategaeth amgylcheddol, mae'n werth nodi bod yr Awdurdod wedi cynnal nifer o ymgyrchoedd recriwtio dros y tair blynedd ddiwethaf i dargedu diffoddwyr tân amser cyflawn a rhan amser (RDS) ac mae wedi llwyddo i benodi i'r ddwy swydd. Hefyd, mae nifer o orsafoedd ar y system RDS wedi bod yn treialu system newydd lle mae argaeledd yn cael ei reoli'n lleol, er mwyn cynnig mwy o hyblygrwydd i ddiffoddwyr tân unigol.

Mae cyflog ac amodau'r diffoddwyr tân yn cael eu negodi ar lefel genedlaethol drwy'r Cyd-gyngor ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub Awdurdodau Lleol, felly nid yr Awdurdod sy'n penderfynu hyn. Fodd bynnag, o ran llesiant ei staff, mae'r Gwasanaeth yn darparu amrywiaeth o fesurau cefnogol, gan gynnwys mynediad at gymorth a chyngor arbenigol ar iechyd a llesiant er mwyn hybu gweithlu iach, yn ogystal â nifer o fuddion i'r gweithwyr, e.e. mynediad at gynllun cerdyn disgownt hamdden.

### (A2) Cynllunio a Chyllidebau

Roedd rhai awgrymiadau'n argymell gwneud gwaith cynllunio i baratoi ar gyfer Brexit a pharatoi hefyd ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio ac yn fwy agored i niwed.

Mae'r Awdurdod eisoes yn cynllunio ar gyfer risgiau hysbys a risgiau sy'n dod i'r amlwg, a hynny yn unigol a thrwy ei aelodaeth o Fforwm Lleol Cymru Gydnerth. Yn y tymor hir, a chan ystyried newid yn yr hinsawdd, bydd yn bwysig canolbwyntio ar wneud cymunedau yn fwy cadarn, gan godi ymwybyddiaeth ymysg pobl o sut i aros yn ddiogel, a gweithio gyda sefydliadau sy'n bartneriaid i ni er mwyn mynd i'r afael â'r modd y mae poblogaeth sy'n heneiddio yn agored i niwed.

### (A3) Cydweithio

Roedd nifer o awgrymiadau'n canolbwyntio ar gydweithio er mwyn lleddfu'r pwysau ar gyrff cyhoeddus eraill megis Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, y cynghorau sir, a Chyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'r Awdurdod wedi bod â threfniadau partneriaeth ers llawer o flynyddoedd. Mae hyn wedi cynnwys treialu Tîm Cymorth Cymunedol, pryd byddai aelodau o staff Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, sydd wedi cael hyfforddiant penodol, yn ymateb yn lle'r Gwasanaeth Ambiwlans i bobl (hŷn fel arfer) sydd wedi cael codwm gartref ac sydd angen cymorth i godi i fyny er nad ydynt wedi cael anaf.

Rhwng Rhagfyr 2015 a Medi 2017, cymerodd y Gwasanaeth ran mewn cynllun cenedlaethol i dreialu cyd-ymateb lle roedd staff tân ac achub yn ymateb gyda'r staff ambiwlans i argyfyngau meddygol a oedd yn bygwth bywyd ar unwaith (e.e. trawiad ar y galon). Roedd y cynllun treialu yn dilyn cynlluniau tebyg a gafodd eu lansio gan 43 o wasanaethau tân ac achub a oedd yn cymryd rhan ledled y DU. Mae'r posibilrwydd o integreiddio cyd-ymateb i swydd diffoddwyr tân wedi bod yn destun trafodaeth ar lefel genedlaethol fel rhan o'r negodi am gyflogau diffoddwyr tân.

## B. ATAL.

Roedd 13 o'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn ymwneud â gweithgareddau ataliol.

### (B1) Gwaith Ataliol Ychwanegol

Roedd rhai ymatebion yn awgrymu y gallai'r Awdurdod wella'r ffordd mae'n targedu pobl fregus mewn cymunedau, a hefyd ystyried cyfeirio gwaith ataliol tuag at ddiogelwch ar y ffyrdd, llifogydd a/neu danau yn yr awyr agored.

Mae amcanion llesiant tymor hir yr Awdurdod wedi cynnwys canolbwyntio ar y ffactorau sy'n cyfrannu at ba mor agored yw person i'r risg o dân yn y cartref. Mae'r ffactorau risg a ganfuwyd dros ddegawd yn ôl yn dal yn berthnasol heddiw, ond mae'r Gwasanaeth yn mynd ati drwy'r amser i addasu'r cyngor mae'n ei roi i ddelio â pheryglon newydd ac ychwanegol gyda thrigolion (e.e. y cynnydd mewn dyfeisiau trydanol mewn llawer o gartrefi).

Fodd bynnag, nid yw gwaith ataliol y Gwasanaeth wedi'i gyfyngu i ddiogelwch tân mewn cartrefi yn unig. Mae'r Archwiliadau Diogel ac Iach yn cynnwys gwirio nifer o faterion (e.e. dibyniaeth ar alcohol) ac maent yn cynnwys atgyfeirio pobl neu ddangos y ffordd at yr asiantaeth briodol i gael cyngor a chymorth arbenigol.

Mae'r Gwasanaeth yn gweithio hefyd gyda sefydliadau eraill i leihau risgiau nad ydynt yn danau, megis gwella diogelwch ar y ffyrdd drwy dargedu cyflwyniadau i bobl ifanc 17–25 oed ar y "5 Marwol" sy'n cynyddu eu risgiau wrth yrru.

**(B2) Addysg**
Roedd un ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn cynnig cynyddu faint o addysg sy'n cael ei roi i blant ysgol ar beryglon tanau glaswellt a hefyd i ymgorffori amcanion amgylcheddol mewn strategaethau addysg pobl ifanc.

Mae'r Gwasanaeth eisoes yn darparu negeseuon ataliol mewn ymweliadau ag ysgolion, a hynny i geisio addysgu plant i fod yn ddiogel rhag tân ond hefyd i drafod materion megis peryglon llosgi bwriadol a'r difrod y mae tanau bwriadol yn ei wneud i'r amgylchedd.

**(B3) Cynllunio**
Roedd un ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn awgrymu y dylai'r Awdurdod lobïo Llywodraeth Cymru am gyllid ar gyfer systemau draenio cynaliadwy mewn trefi a phentrefi ac i ail-wlychu mawndiroedd, creu morlynoedd ar gyfer atal llifogydd a dyfrhau/storio mewn argyfwng yn yr haf.

Er nad oes cyfrifoldeb statudol ar yr Awdurdod am atal llifogydd, daw cyllid cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru bob blwyddyn ar gyfer rhaglen Cydnerthedd Cenedlaethol. Pwrpas y rhaglen yw gwneud y gwasanaeth tân ac achub yn fwy cadarn rhag amrywiaeth o drychinebau. I wrthsefyll y bygythiad gan amryw o senarios yn ymwneud â dŵr, mae'r rhaglen wedi darparu pympiau cyfaint mawr (HVP), sydd wedi cael eu lleoli'n strategol ledled y wlad ac y gellir eu defnyddio i ddelio â llifogydd ac i gynorthwyo i ddiffodd tanau.

**(B4) Cydweithio**
Roedd nifer o ymatebwyr yn meddwl y dylai diffoddwyr tân weithio gydag awdurdodau lleol i ysgogi a rheoli llosgi dan reolaeth ac i gynorthwyo tifeddianwyr i greu rhwystrau tân er mwyn lleihau maint tanau yn yr awyr agored. Roedd rhai yn awgrymu hefyd y dylai'r Awdurdod weithio gyda phartneriaid i ganfod meysydd gwaith ar y cyd er mwyn osgoi gwastraffu adnoddau neu ddyblygu gwaith ataliol.

Mae'r Awdurdod eisoes yn gweithio mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru ac amryw o bartneriad eraill ledled Cymru i ostwng nifer yr achosion o losgi bwriadol, ac mae tanau yn yr awyr agored yn rhan allweddol o'r gwaith. Mae nifer o reolwyr y Gwasanaeth wedi cael eu hyfforddi fel ymgynghorwyr tactegol ar gyfer tanau awyr agored, sy'n gweithio ochr yn ochr â Chyfoeth Naturiol Cymru a thirfeddiannwyr yn ystod tanau yn yr awyr agored er mwyn cael y canlyniad gorau tra'n lleihau'r effaith ar yr amgylchedd.

Mae'r Awdurdod yn cydweithio hefyd â Chyfoeth Naturiol Cymru a'r Adran Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) – sef yr asiantaeth arweiniol ar gyfer llifogydd – i gynorthwyo i liniaru effeithiau llifogydd pan fo modd.

## C) CORFFORAETHOL

Roedd 13 o'r ymatebion yn ymwneud â gweithgareddau corfforaethol.

### (C1) Cerbydau ac Adeiladau

Roedd rhai ymatebion yn ymwneud â newid i gerbydau hybrid/trydan, neu i gerbydau sy'n defnyddio tanwydd yn fwy effeithlon, a chyflwyno technoleg fwy gwyrdd mewn adeiladau, e.e. paneli solar, systemau gwynt a systemau gwresogi sy'n fwy cyfeillgar i'r amgylchedd.

O ran y fflyd o gerbydau sydd gan yr Awdurdod, cafodd ambell gerbyd trydan ei gyflwyno i'r fflyd o gerbydau nad ydynt yn rhai brys yn 2015, a chymerwyd camau dros y blynyddoedd i wella'r effeithlonrwydd amgylcheddol pan fo'n briodol (e.e. drwy osod teclynnau cyfyngu cyflymder mewn rhai cerbydau). Yn amlwg, bydd datblygiadau mewn technoleg yn parhau i gael eu hystyried wrth reoli'r fflyd a chaffael cerbydau.

Bydd sicrhau bod staff yn teithio llai tra maent yn y gwaith hefyd yn rhan o feddylfryd y Gwasanaeth wrth gynllunio unrhyw newidiadau mewn arferion gweithio.

O ran adeiladau'r Awdurdod, cynhaliwyd adolygiad i ganfod mwy o gyfleoedd i fod yn effeithlon o ran tanwydd ac ynni, gan gydnabod bod gwerth i e.e. gwella dulliau inswleiddio a gosod goleuadau LED, ond hefyd gan sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r cyfnod fforddiadwyedd wrth adfer costau.

### (C2) Ailgylchu/Ailddefnyddio/Lleihau Gwastraff

Roedd un ymateb yn awgrymu y gallai'r Awdurdod rannu cyfleusterau â gwasanaethau eraill, megis yr heddlu, ambiwlans, gwylwyr y glannau er mwyn lleihau'r effaith amgylcheddol. Roedd un ymateb arall o blaid rhaglenni prynu 'diwedd oes' er mwyn hybu cynaliadwyedd gyda chanlyniadau ailgylchu mesuradwy.

Dyma faes y bydd yr Awdurdod yn ystyried ei wella drwy ei strategaeth amgylcheddol newydd. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod yr Awdurdod eisoes wedi dechrau ar e.e. rhannu safleoedd gyda'r gwasanaethau heddlu ac ambiwlans, a chyfrannu at sefydliadau megis Fire Aid sy'n gweithio'n rhyngwladol gydag elusennau sy'n ailddosbarthu cyfarpar sy'n hen ac wedi'i datgomisiynu i ardaloedd difreintiedig o'r byd.

### (C3) Addysg ac Ymwybyddiaeth

Roedd un ymatebwr yn awgrymu penodi hyrwyddwyr amgylcheddol ar lefelau gwleidyddol, strategol, tactegol a gweithredol, a chynnwys yr amcanion amgylcheddol mewn hyfforddiant cynefino ar gyfer staff newydd.

Bydd gwreiddio ymwybyddiaeth amgylcheddol ymhob rhan o'r Awdurdod yn rhan o'r strategaeth amgylcheddol gyffredinol.

## D) GWYBODAETH ARALL

Roedd ymatebion eraill yn cynnwys:

- copi o gynllun cymdogaeth i'r Awdurdod ei ystyried
- cefnogaeth i weledigaeth yr Awdurdod am ymwybyddiaeth amgylcheddol, ac anogaeth i ddatblygu strategaeth ranbarthol ar gyfer yr amgylchedd a chynaliadwyedd ar gyfer Gogledd Cymru, gyda chynlluniau cyflenwi rhanbarthol ar gyfer y sefydliad/meysydd
- barn y dylai'r Awdurdod gael dull deublyg i geisio:
    - a) lleihau, cymaint â phosibl, ar ei arferion sy'n gwneud drwg i'r amgylchedd, a
    - b) galw am newidiadau yn arferion sefydliadau eraill y mae eu gweithgareddau'n effeithio ar waith yr Awdurdod.

Atodiad 2

**Ymateb Drafft gan yr Awdurdod**

Hoffem ddiolch i bawb a gymerodd yr amser i ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn 2019.

Fel yr amlinellir yn ein deunyddiau ymgynghori, mae'r Awdurdod yn cynnig datblygu Strategaeth Amgylcheddol newydd a chynhwysfawr sy'n adlewyrchu ei ddyhead i leihau ei effaith ar yr Amgylchedd ac i'w wneud yn fwy cadarn rhag newid yn yr hinsawdd er mwyn i ni allu parhau i ddarparu gwasanaethau rhagorol o ran gwasanaethau ataliol ac ymateb brys.

Nid peth newydd yw hyn. Mae'r Awdurdod wedi cydnabod ers tro bod cyfrifoldeb arno i ddiogelu'r Amgylchedd ac mae eisoes wedi cymryd camau i gymedroli faint mae'n ddefnyddio, i gynyddu faint mae'n ailgylchu ac i leihau effaith ei weithrediadau ar yr Amgylchedd. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen strategaeth gydlynedig er mwyn i ni allu rhoi sicrwydd i ni ein hunain ac – yn bwysicach – i ddangos i eraill ein bod ni'n gwneud cymaint â phosibl yn hyn o beth.

Gweledigaeth yr Awdurdod yw bod yn sefydliad sy'n gyfrifol am ymwybyddiaeth amgylcheddol. Mae hyn yn bwysig, nid yn unig oherwydd bod digwyddiadau amlach yn gysylltiedig â thywydd eithafol ond hefyd oherwydd bod digwyddiadau sy'n gysylltiedig â thywydd eithafol yn cael effaith uniongyrchol ar y galw am ein gwasanaethau. Mae hyn yn risg ariannol mawr i'r Awdurdod, ac mae angen i ni wneud popeth posibl i ateb yr heriau a pharhau i ddarparu ein gwasanaethau hollbwysig.

Cafwyd ymateb calonogol i'r ymgynghoriad. Roedd cefnogaeth amlwg i ni ynglŷn â'n gweledigaeth am ymwybyddiaeth amgylcheddol, ond cydnabyddid hefyd na fyddai'n hawdd gwneud hyn. Rydym yn deall hyn, ac rydym yn gwybod y bydd problemau anodd yn siŵr o fod, megis ariannu unrhyw newidiadau a darparu adnoddau ar eu cyfer. Fodd bynnag, rydym yn deall pa mor bwysig yw hi fod ein cymunedau yn gwybod y gallant ddibynnu ar gael gwasanaethau tân ac achub rhagorol pan fo eu hangen.

Ni fyddwn yn gweithio ar ein pen ein hunain. Rydym eisoes yn cydweithio'n agos ag amrywiaeth o sefydliadau eraill ledled Gogledd Cymru, ac rydym yn rhagweld y dylen ni, drwy weithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â rhai materion ar y cyd, fod yn gallu cyflawni mwy na phe baem ni i gyd yn gweithio ar wahân.

Fel bob amser, byddwn ni'n darparu adroddiadau rheolaidd ynghylch y cynnydd, ac edrychwn ymlaen i chwarae fwy o ran fyth yn diogelu'r Amgylchedd.

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 10**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **10 Chwefror 2020** |
| Swyddog Arweiniol | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Pippa Hardwick, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol** |
| Pwnc | **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru – monitro ac asesu cyrff cyhoeddus** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1. Rhoi gwybod i'r Aelodau am ganfyddiadau cyffredinol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ynglŷn â sut roedd cyrff cyhoeddus yn gwneud cynnydd gyda'u hamcanion llesiant yn 2017/18, gyda gwybodaeth benodol ynglŷn â sut mae'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru yn gweithredu'r Ddeddf.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2. Rhaid i'r Awdurdod Tân ac Achub (yr Awdurdod) gyhoeddi amcanion gwella a llesiant a bod wedi cynnwys y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill yn y broses o ddatblygu'r amcanion hynny.

3. Mae dyletswydd ar Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (y Comisiynydd) i fonitro ac asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu hamcanion llesiant.

4. Fe wnaeth y Comisynydd gyhoeddi adroddiad yn Hydref 2019 yn edrych yn ôl ar y cynnydd a wnaed gan gyrff cyhoeddus yn ystod 2017/18. Yn ogystal â phum canfyddiad cyffredinol, mae hefyd yn adrodd canfyddiadau mewn amrywiaeth o gyrff yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys yr awdurdodau tân ac achub.

5. Rhoddwyd ystyriaeth i'r canfyddiadau sydd yn yr adroddiad, a'u defnyddio i ddiwygio a helaethu amcanion gwella a llesiant drafft yr Awdurdod ar gyfer 2020/21.

## ARGYMHELLION

6. Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys adroddiad y Comisiynydd a'r camau a gymerir gan yr Awdurdod i fynd i'r afael â'r canfyddiadau.

**CEFNDIR**

7. Rhaid i'r awdurdodau tân ac achub yng Nghymru gyhoeddi amcanion gwella yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ac amcanion llesiant yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

8. Yn ôl y gyfraith, rhaid i'r Awdurdod ymdrechu i wella ei wasanaethau yn y tymor byr ac ystyried llesiant cenedlaethau'r dyfodol o bobl yn yr ardal yn y tymor hir. Rhaid i'r amcanion llesiant mae'n eu mabwysiadu gyfrannu at gyflawni nodau llesiant Cymru, a rhaid i'r Awdurdod fod yn gallu dangos ei fod yn cymryd pob cam rhesymol (wrth gyflawni ei swyddogaethau) i gyflawni ei amcanion.

9. Bydd yr Aelodau'n cofio mai'r nodau llesiant ar gyfer Cymru yw sicrhau: Cymru lewyrchus; Cymru gydnerth; Cymru iachach; Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynus; Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

10. Swyddogaeth y Comisiynydd yw hyrwyddo'r egwyddor datblygu cynaliadwy, bod yn warcheidwad er lles cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru, a chefnogi'r cyrff cyhoeddus sydd yn y rhestr yn y Ddeddf i weithio tuag at gyflawni'r nodau llesiant.

11. Mae dyletswydd ar y Comisiynydd hefyd i fonitro ac asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu hamcanion llesiant, a gall y Comisynydd wneud argymhellion i gorff cyhoeddus ynglŷn â'r camau mae wedi eu cymryd neu mae'n cynnig eu cymryd i osod ei amcanion llesiant ac yna i'w cyflawni.

**GWYBODAETH**

12. Yn Hydref 2019, fe wnaeth y Comisiynydd gyhoeddi adroddiad yn edrych yn ôl ar y cynnydd a wnaed gan gyrff cyhoeddus yn ystod 2017/18.

13. Mae adroddiad y Comisiynydd yn darparu canfyddiadau cyffredinol ynglŷn â sut mae cyrff cyhoeddus wedi gwneud cynnydd tuag at eu hamcanion llesiant ac mae'n rhoi adborth ynglŷn â sut roeddent yn gweithredu'r Ddeddf yn ystod 2017/18.

14. Yn ogystal â phum canfyddiad cyffredinol, mae'r adroddiad yn darparu canfyddiadau am amrywiaeth o gyrff yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys yr awdurdodau tân ac achub. Mae Atodiad 1 yn cynnwys copi o'r adroddiad.

15. Rhoddwyd ystyriaeth i ganfyddiadau'r Comisiynydd er mwyn diwygio a helaethu amcanion gwella a llesiant drafft yr Awdurdod ar gyfer 2020/21. Ar ôl iddi gael ei chymeradwyo, bydd y gyfres ddiwygiedig o amcanion yn cael ei hymgorffori yn y Cynllun Gwella a Llesiant drafft terfynol ar gyfer 2020/21, er mwyn i'r Awdurdod llawn ei chymeradwyo yn ei gyfarfod nesaf ym mis Mawrth 2020.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'n cynyddu nifer yr amcanion unigol sy'n cael eu cyflawni gan yr Awdurdod. Mae goblygiad uniongyrchol i'r gwaith o gytuno ar y camau tuag at amcanion llesiant tymor hir yr Awdurdod. |
| Cyllideb | Mae perthynas glir rhwng cynlluniau'r Awdurdod ar gyfer 2020/21 a lefel yr adnoddau ariannol sydd ar gael. Rhaid i gyllideb 2020/21 gael ei chadarnhau erbyn canol mis Chwefror 2020. |
| Cyfreithiol | Mae'n gymorth i gydymffurfio â deddfwriaeth ym maes cynllunio gwelliannau a llesiant. |
| Staffio | Nid oes effaith hysbys ar lefelau staffio. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Bydd effaith y camau penodol ar yr agweddau hyn yn cael ei hasesu ar adeg briodol yn eu datblygiad. |
| Risgiau | Mae'n lleihau'r risg o beidio â chydymffurfio â'r gyfraith ac o fethu â chyllidebu a chynllunio yn briodol. |

# Canfyddiadau ar draws Awdurdodau Tân ac Achub

**Mae Gwasanaethau Tân ac Achub wedi dangos sut y maent wedi croesawu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy astudiaethau achos, cydweithredu a meithrin newid diwylliannol.**

**Ond mae yna beth amrywiad wrth ddangos sut mae gosod amcanion a gwneud penderfyniadau'n yn cymhwyso'r pum dull o weithio.**

Mae astudiaethau achos ledled y sector yn dangos cymhwysiad y Ddeddf a'r modd y mae'r sector yn mynd tu hwnt i'w 'dyletswyddau traddodiadol'. Er enghraifft, gweithredu gwiriadau 'diogel ac iach' yn y cartref a chyflwyno rhaglenni addysg i atal llosgi bwriadol, tân, ymddygiad gwrthgymdeithasol cyffredinol a niwed. Cefais fy nghalonogi gan hyn ac rwyf eisoes wedi rhannu enghreifftiau da gydag eraill. Buaswn yn eu hannog i wneud yr un fath drwy eu dylanwad gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae atal yn awr yn hawdd ei ddangos drwy waith y Gwasanaethau Tân ac Achub. Mae llai o dystiolaeth yn eu hoffer hunan-fyfyrio ar y modd y maent yn meddwl yn yr hirdymor ac, er gwaethaf rhai enghreifftiau da, mae yna gyfle i wella ymgyfraniad pobl yn eu cynllunio, strategaeth a gwerthusiad o wasanaethau.

Fel y cyfryw, nid yw'r enghreifftiau hyn bob amser yn cael eu dangos yng nghyd-destun defnyddio'r pum dull o weithio a chyfrannu i'r nodau llesiant. Felly, mae angen cymryd camau pellach i egluro'r modd y mae'r prosiectau arloesol hyn yn darparu darlun clir ar draws y sefydliad wrth gyflawni eu hamcanion llesiant. Gallai hyn olygu adolygu eu hamcanion a'u camau i sicrhau eu bod yn dal yn addas at y diben, yn unol â disgwyliadau'r Comisiynydd yn 'Llesiant yng Nghymru: y siwrnai hyd yn hyn'. Hoffwn weld defnyddio'r adnoddau, megis Fframweithiau Cenedlaethau'r Dyfodol a 'theithiau tuag at y nodau llesiant', yn arwain at arfer da pellach yn yr hyn y mae'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn ei gyflawni.

Dywedwyd wrthyf fod gweithredu'r Ddeddf yn llwyddiannus yn dibynnu i raddau helaeth ar arweinyddiaeth, sy'n cynnwys swyddogion etholedig, dealltwriaeth o werth gweithredu'r Ddeddf. Tra mod i'n hyrwyddo'r egwyddor datblygu cynaliadwy mor eang â phosibl, rhaid i gyrff cyhoeddus hefyd ei pherchnogi ar lefel arweinyddiaeth i hawlio newid a chreu diwylliant sy'n neilltuo amser ac adnoddau ar gyfer rhoi cynnig ar wahanol bethau, herio'r status quo a chyfleu dysgu. Rwyf eisiau gweld y newid hwn mewn agwedd a gweithred - dylid adrodd ar yr hyn sy'n wahanol i'r hyn oedd yn digwydd o'r blaen yn dryloyw a chlir.

Yn olaf, mae yna amrywiad yn lefel manylder o fewn yr amcanion llesiant ar draws tri gwasanaeth. Mae rhai'n ffocysu ar weithgaredd ymarferol a gallant fod yn ddiffygiol mewn eglurhad digonol am y modd y byddant yn ceisio macsimeiddio cyfraniad tuag y nodau llesiant. Ond mewn cyferbyniad, mae astudiaethau achos wedi dangos bod hyn eisoes yn digwydd. Eto, byddai naratif clir ar y modd y maent fel sefydliad yn gweithredu'r Ddeddf yn ddefnyddiol mewn adroddiadau blynyddol yn y dyfodol. Buasem yn annog rhannu dysgu gyda'ch gilydd yn ogystal â gyda rhwydweithiau fel Cydlynwyr Datblygu Cynaliadwy Cymru, sy'n dwyn at ei gilydd swyddogion o bob rhan o Gymru sy'n ymroi i weithredu'r Ddeddf.

**Astudiaeth achos:**
Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru'n dangos eu cyfraniad i Gymru fwy llewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang drwy eu hamcan "Cynorthwyo cynaliadwyedd economaidd o fewn ein cymuned fusnes' ac maent wedi cyflwyno cerbydau sy'n cael eu pweru gan hydrogen a beiciau trydan yn ardaloedd Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe, a alluogodd bersonél yn yr ardal honno i leihau eu hôl-troed carbon a symud o gwmpas y ddinas yn fwy hwylus.

**Astudiaeth achos:**
Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi gweithio tuag at gyflawni eu hamcan "Cynorthwyo pobl i atal tanau damweiniol mewn preswylfeydd ac aros yn ddiogel os byddant yn digwydd" drwy ddatblygu "Gwirio Diogel ac Iach", sy'n cynnwys cyngor ar ddiogelwch nwy a thrydan a pheryglon a fedrai achosi pobl i syrthio, i wneud pob cyswllt ag aelodau o'r cyhoedd yn rhai sy'n cyfrif. Gan weithio gyda Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, Heddlu Gogledd Cymru, Awdurdodau Lleol, y trydydd sector a chymdeithasau tai megis Cartrefi Conwy, ceisiodd y Gwasanaeth Tân gyfrannu tuag at Gymru iachach, Cymru o Gymunedau Cydlynus a Chymru fwy cyfartal drwy'r gwaith ymroddedig hwn.

**Astudiaeth achos:**
Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dangos pŵer cydweithredu, integreiddio ac ymgyfrannu drwy ymroi i weithio tuag at gyflawni eu hamcan "lleihau'r nifer o danau bwriadol". Mae ystod o ddulliau wedi eu mabwysiadu, ond dengys y prosiect Bryniau Iach mewn cydweithrediad â Bwyd Gwyllt Cymru, Awdurdodau Lleol, partneriaid eraill y trydydd sector, ffermwyr lleol a'r gymuned ehangach gyfraniad tuag at Gymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, a Chymru o gymunedau cydlynus a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang. Mae tanau gwyllt yn effeithio'n arwyddocaol ar gynefinoedd, rhediad dŵr a bioamrywiaeth ardal, yn ogystal â llesiant y gymuned. Drwy weithio gyda'i gilydd, mabwysiadodd y bartneriaeth dechnegau rheoli tir megis rheoli rhedyn, tanau dan reolaeth ac annog anifeiliaid pori; symud tuag at ymagwedd sy'n atal tanau gwyllt, yn atal adnoddau rhag cael eu gwario ar ymladd tân, gan osgoi colled bellach gynefinol.